Bwlchygroes ~ Star ~ Llwyndrain ~ Gorllewin Cilrhedyn

Cynllun Gweithredu

Rhan-ariennir prosiect 'Dylunio ein Dyfodol' gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru
drwy gyfrwng Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

Planed

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

CarnegieUK TRUST
CHANGING MINDS • CHANGING LIVES

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CYNLLUN GWEITHREDU

Bwlchygroes, Star, Llwyndrain a Gorllewin Cilrhedyn

Paratowyd Gan

GYMUNED
Bwlchygroes, Star, Llwyndrain a Gorllewin Cilrhedyn

Mewn Cydweithrediad â

Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro er Menter a Datblygu

CYNNWYS **TUDALEN**

Cefndir y Cynllun Gweithredu	2
Ardal y Cynllun Gweithredu a Naws am Le	2
Hanes Bwlchygroes, Star, Llwyndrain a Gorllewin Cilrhedyn	3
Cynigion y Cynllun Gweithredu	5
Bwlchygroes, Star, Llwyndrian a Gorllewin Cilrhedyn yn y Darlun mwy	5
Y Weledigaeth ar gyfer yr 21ain Ganrif	6
Cyfleusterau Cymunedol	6
Gweithgareddau, Digwyddiadau a Chyfathrebu Cymunedol	8
Menter a Busnes	9
Yr Amgylchedd ac Ynni	11
Treftadaeth a Diwylliant	12
Priffyrdd a Thrafnidiaeth	13
Tai a Gwasanaethau	14
Grwpiau Gweithgaredd / Gweithredu	15

Cytunwyd y cynllun gweithredu hwn mewn cyfarfod cyhoeddus ar 20fed Medi 2006, yn dilyn dosbarthiad o'r Cynllun Gweithredu Drafft i breswylwyr cymuned Bwlchygroes, Star, Llwyndrain a Gorllewin Cilrhedyn

Llun Clawr Blaen gan Mared Davies

Cefndir y Cynllun Gweithredu

Yn 2006, cytunwyd gyda chymuned Bwlchygroes a thrigolion Star, Llwyndrain a Gorllewin Cilrhedyn, y dylid llunio Cynllun Gweithredu i dynnu pobl leol at ei gilydd, i gofnodi eu syniadau a chytuno ar raglen o ddatblygiadau ar gyfer y dyfodol a rhennir.

I annog y gymuned i gymryd rhan, trefnwyd dau Weithdy Creu Gweledigaeth yn Neuadd y Pentref yn ystod mis Mai a mis Mehefin, wedi eu hwyluso gan PLANED. Yn y Cynllun Gweithredu drafft hwn, cyflwynir y darganfyddiadau a'r wybodaeth a ddarparwyd gan bobl leol yn ystod y gweithdai hyn. Fe fydd yn cael ei dosbarthu, ar ffurf drafft, i'r gymuned gyfan, ynghyd â gwahoddiad i Gyfarfod Cyhoeddus ble y gellir cytuno ar ddigwyddiadau ac ychwanegiadau.

Fel arfer, caiff y gwaith o weithredu cynigion y Cynllun Gweithredu ei yrru ymlaen gan Fforwm Cymunedol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o adrannau gwahanol o'r gymuned gan gynnwys y Cyngor Cymuned. Fe all PLANED ac asiantaethau eraill helpu'r broses hon.

Ardal y Cynllun Gweithredu a Naws am Le

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cwmpasu cymunedau Bwlchygroes, Star, Llwyndrain a Gorllewin Cilrhedyn, sydd oll yn gorwedd yn ardal Cyngor Cymuned Clydau. Mae'r pentrefi cyfagos yn cynnwys Tegryn i'r de a Boncath i'r gogledd orllewin.

Mae Bwlchygroes, Star, Llwyndrain a Gorllewin Cilrhedyn wedi eu lleoli rhwng Crymych a'r ffin sirol rhwng Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae ganddynt leoliad gwych ar ymylon Mynyddoedd y Preseli ac mae'r Frenni Fawr a'r Frenni Fach hefyd yn ffinio gyda hwy. Mae yna olygfeydd pellgyrhaeddol i bob cyfeiriad ac mae'r amgylchedd naturiol hardd yn destun balchder i'r gymuned.

Mae Llwyndrain a Bwlchygroes wedi cadw eu swyddfeydd post unigol sy'n cyfuno gyda siop y pentref ym Mwlchygroes. Caeodd yr ysgol ym Mwlchygroes 6 mlynedd yn ôl. Roedd yn benderfyniad amhoblogaidd iawn ac roedd pobl leol yn teimlo ei fod yn fygythiad i galon y gymuned. Heddiw, mae'r plant yn teithio i ysgol ranbarthol yn Nhegryn. Mae Eglwys y Plwyf Clydau mewn safle anghysbell rhwng y pentrefi ac mae yna gapeli yn Star, Llwyndrain ac ym Mwlchygroes ei hun.

Yn ychwanegol at y gwasanaethau iechyd a chasglu sbwriel, mae yna nifer o wasanaethau symudol, gan gynnwys fan fara, fan bysgod, plymiwr, adeiladwr, person trin gwallt, llyfrgell a Bws y Ddraig Werdd sy'n ymweld â'r ardal. Mae'r tafarnau agosaf yn Nhegryn a Boncath.

Mae'r bobl leol yn enwog am eu hysbryd cymunedol cryf a'u dawn am gydweithio'n effeithiol. Maen nhw'n tynnu at ei gilydd mewn argyfwng ac yn helpu unrhyw un sydd angen help. Maen nhw'n rhannu agwedd groesawgar a phositif y mae rhai'n ei ddisgrifio fel agwedd 'anorchfygol!' Mae'r gymuned yn un ddwyieithog ac adlewyrchir hyn mewn gweithgareddau, gan gynnwys gwasanaethau'r eglwys.

Ceir gwir synnwyr o falchder yn y gymuned, yn enwedig yn y Neuadd a'i gweithgareddau niferus, ac maen nhw'n benderfynol o warchod y traddodiadau a'r ffordd o fyw lleol.

Mae'r elfennau hyn, ynghyd â'r dirwedd wledig, y nentydd, y melinau, y llwybrau a'r adeiladau llechi - yn cyfrannu at 'ymddangosiad' y gymuned - ei naws am le.

Mae sawl teulu lleol wedi byw yma ers cenedlaethau, ac mae hyn yn creu synnwyr o hanes. Mae'r eglwys a'r capeli, Plasty Lancych a thai maenor eraill, y felin wlân a 'phentref coll' Cwmpedran, oll yn cyfrannu at y dreftadaeth adeiledig, ac felly hefyd ystâd Ffynnone a'i gysylltiadau at Lloyd George. Mae hanes yr ardal wedi ei gofnodi'n dda, ac mae yna falchder yn y ffaith mai dyma gartref Bois y Frenni - y grŵp a ffurfiwyd gan W R Evans ac sy'n dal i ddiddanu pobl heddiw.

Hanes Bwlchygroes, Star, Llwyndrain a Gorllewin Cilrhedyn

Gorwedd plwyf Clydau neu Clydey yn agos at Gastell Newydd Emlyn. Mae'n ffinio ar dair sir - Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae Mynyddoedd y Preseli'n dominyddu'r golygfeydd i'r gorllewin tra bod yr Afon Cych a'i isafonydd niferus yn rhedeg i'r dwyrain, pob un yn ymdroelli tua'r Afon Teifi yn Abercych. Mae'n rhaid bod y cyflenwad toreithiog hwn o ddŵr yn ffactor wrth i'r anheddwyr cynnar benderfynu anheddu yma. Ar hyd yr afon, mae yna awyrgylch o goetir, a dynodwyd yr ardal yn *Ddyffryn Hudol* oherwydd ei chysylltiad â'r chwedlau Cymraeg o'r *Mabinogi.*

Yn ffisegol, i raddau helaeth, nid yw'r plwyf wedi ei ddifetha gan ddiwydiant modern, ac un o'i atyniadau mwyaf yw'r diffyg heolydd mawr a'r traffig cysylltiedig: nid oes traffordd i'w glywed, ac o ganlyniad mae yma heddwch y mae llawer o bobl o'r tu allan yn credu iddo ddiflannu o fywyd modern. Nid oes llygredd golau i effeithio ar awyr y nos, ac felly gellir gweld myrdd o sêr yn tywynnu'n braf - golygfa sy'n rhyfeddol i'r rheiny sydd ond wedi gweld awyr y ddinas trwy darth goleuadau stryd melyn. Nid yw'r naws hyfryd hon heb ei faeau serch hynny: mae lonydd cul y wlad yn gallu golygu bod gyrru'n anodd ac mae rifyrsio'n sgil y mae angen i dwristiaid ac anheddwyr ei hogi. Mae'r diffyg diwydiant yn golygu diffyg cyfleoedd gwaith ac, o ganlyniad, cyflogau isel, tra bod natur anrhagweladwy ffermio fel ffordd o fyw wastad wedi dod ag anawsterau. Mae'r amodau heddiw yn gallu dod â digalondid llwyr.

Mae'r iaith Gymraeg yn amlwg yn dominyddu mewn sgyrsiau bob dydd, yn wahanol i ardaloedd eraill o Sir Benfro.

Mae gwreiddiau'r plwyf yn ymestyn yn ôl ymhell ar y llinell amser: roedd yna o leiaf pedwar safle claddu yma yn yr Oes Efydd a daethpwyd o hyd i arfau o'r cyfnod yna hefyd: roedd yna ddau anheddiad yn ystod yr Oes Haearn hefyd. Yn yr oes Rufeinig, adeiladwyd heol, efallai ar linell heol Geltaidd gynharach, er nad oes fawr o arwyddion o unrhyw weithgarwch arall.

Yn fuan wedi i'r Rhufeiniaid ffoi o Brydain, fe ddechreuodd hanes Clydau yn ei hanfod: Daeth Sant Clydai, yr enwyd yr eglwys a'r plwyf ar ei ôl, i fyw yma fel meudwy mewn man ynysig, ond sanctaidd o bosib, a allai fod yn dyddio o'r oes baganaidd. Yna, adeiladwyd eglwys yno a dewisodd sawl person blaenllaw gael eu claddu yn yr eglwys neu o'i chwmpas. Mae yna gyfres o gerrig arysgrifenedig yn yr eglwys i'w coffau. Sefydlwyd eglwys gynnar arall yng Nghilrhedyn.

Mae'n bosib y sefydlwyd mynachdy Celtaidd ger Tegryn ac mae'n bosib fod un arall wedi bod yn bwysig fel y lle y paratôdd Hywel Dda ei gyfreithiau sylfaenol yn y degfed ganrif, er mai sbeciant yw hyn ac nid ffeithiau hanesyddol.

Datgelir mwy o waith dyfalu gyda'r enw Cadifor, a roddodd deitl Arglwydd Blaencych i'w hun ond a aeth ymlaen yn ddiweddarach i hawlio mai ef oedd Arglwydd Dyfed. Yn ôl y chwedl, roedd yn byw'n llythrennol ar un o isafonydd y Cych, oherwydd fe adeiladodd ei gartref dros y nant ac ar ei thraws, y sylfeini ar un glan yn Sir Benfro, a'r sylfeini ar y lan gyferbyn yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n bosib mai rhai o'r olion yn y fan hon yw'r aelwyd ble y coginiodd ei fwyd. Fe fu farw yn 1088, yr un flwyddyn â Gwilym Goncwerwr, y mae'n ymddangos iddo sefydlu rhyw fath o gynghrair wleidyddol gydag ef.

Fe fu'r Normaniaid yn brysur yn concro safleoedd trefol ac mae'n ymddangos iddynt anwybyddu'r cilddwr bach hwn, ond yn yr Oesoedd Canol Cynnar sefydlwyd castell mwnt a beili yng Nghastell Crychydd.

O'r Oes Dduraidd, mae yna fwy'n wybyddus am y bobl a oedd yn byw yma, ac yn gweithio mewn diwydiannau amrywiol neu'n berchen ar ystadau. Adeiladwyd, addaswyd neu adnewyddwyd eglwysi, capeli a chartrefi, er y gadawyd i rai dadfeilio - eu ffawd oedd bod yn angof ymhlith cenedlaethau'r dyfodol. Cyrhaeddodd y rheilffyrdd a newidiwyd dulliau ffermio oherwydd roedd modd cludo cynnyrch yn hwylus, yn enwedig llaeth, i drefi mawr a dinasoedd. Fe fanteisiodd y diwydiant llechi yn y Glog ar hyn hefyd. Daeth addysg, yn enwedig llythrennedd, i fod yn bwysig, a sefydlwyd ysgolion ym Mwlchygroes a Thegryn yn dilyn Deddf Addysg Forsters 1870: anogwyd disgyblion i gymryd diddordeb mewn llenyddiaeth a cherddoriaeth a chyrhaeddwyd safon uchel, gan ennill sawl cystadleuaeth ar lefel genedlaethol.

Cynlluniwyd Tŷ Ffynnone gan John Nash cyn iddo ddod yn enwog fel pensaer Regent Street a Piccadilly, ond nid yw'n gorwedd o fewn y plwyf mewn gwirionedd, er ei fod yn edrych allan dros y plwyf. Ac roedd y teuluoedd a fu'n byw yno, fel teulu'r Colbys, yn berchen ar dir sylweddol yn yr ardal, ac yn ei osod i denantiaid. Yn 1987 fe'i prynwyd gan ŵyr David Lloyd George, sy'n byw yno o hyd.

Yn wreiddiol, ffermdy oedd Maenor Lancych yn dyddio o tua 1600, ac mae nawr yn adain o'r prif dŷ a adeiladwyd yn 1820, ond a ailadeiladwyd yn y 1850au. Roedd y plasty ar werth yn 2003. Ni fu ar y farchnad agored o'r blaen, oherwydd fe fu yn nwylo'r un teulu ers yr ail ganrif ar bymtheg a dywedwyd y gallai'r teulu hawlio cysylltiad â chwm Cych ers dyddiau Harri'r VII.

Roedd yna dân trychinebus yn Lancych yn 2003 yn fuan wedi gwerthu'r tŷ, ond mae popeth yn iawn nawr.

Daw'r ugeinfed ganrif â mynydd o wybodaeth hanesyddol i law'r ymchwilydd. Roedd yn adeg o newid sylweddol, o'r ceffyl a'r cart i archwilio'r gofod, o'r Post Brenhinol i'r e-bost, er i nifer o'r rhyfeddodau modern hyn gymryd amser i dreiddio i ardaloedd mor anghysbell: ni chyrhaeddodd trydan hyd nes y 1950au, ac oherwydd hyn nid oedd modd defnyddio dyfeisiau i arbed gwaith, fel peiriannau golchi, a ganwyd babanod, hyd yn oed yn y 1950au, yng ngolau lampau paraffin. Cyflwynwyd y tractor yn ystod yr Ail Ryfel Byd oherwydd roedd trin y tir yn flaenoriaeth uchel, gyda'r mewnforion bwyd wedi gostwng yn sylweddol oherwydd gweithgarwch y gelyn ar y moroedd mawr, a'r gweithlu'n gostwng wrth i ddynion ifainc fynd i'r Lluoedd Arfog – rhai ohonynt byth i ddychwelyd.

Mewn blynyddoedd diweddar, mae ffermwyr lleol wedi cael yr un pryderon â'r rheiny ledled Prydain: twbercwlosis, BSE, Clefyd y Troed a'r Genau, gwaharddiadau ar allforio, cyfyngiadau ar symud anifeiliaid, colli cymorthdaliadau. Serch hynny, mae'r ardal wedi meithrin enw da am godi stoc, gan ennill sawl gwobr am wartheg mewn sioeau amaethyddol.

Gwelwyd dylifiad o fewnfudwyr o Loegr, sy'n dianc rhag "rat race" masnach a thraffig trwm ac mae hyn wedi gyrru prisiau tai i fyny, er na welir yma'r gystadleuaeth ffyrnig a welir mewn ardaloedd eraill, felly mae'r cynnydd mewn prisiau wedi bod yn llai o gymharu ag ardaloedd eraill.

Cynigion y Cynllun Gweithredu

Trafodwyd sawl agwedd amrywiol yn ystod y Gweithdai Gweledigaeth Gymunedol yn 2006. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Naws am Le – dathlu rhinweddau'r ardal.
- Archwiliad Cymunedol - yn rhestru'r prif nodweddion a chyfleusterau
- Bwlchygroes yn y Darlun Mwy – ystyried materion byd-eang a lleol
- Gwendidau, Bygythiadau, Cryfderau a Chyfleoedd
- Y Weledigaeth ar gyfer 2016 – darlun delfrydol o'r dyfodol
- Archwiliad Sgiliau ac Adnoddau - yn arddangos yr amrywiaeth o sgiliau lleol
- Troi Syniadau'n Gamau Gweithredu - defnyddio'r wybodaeth i gynllunio prosiectau
- Wal Addewidion – nodi'r prif faterion a ystyriwyd yn rhai pwysig.

Mae'r materion a godwyd wedi eu grwpio yn themâu eang a, ble'n addas, wedi eu cysylltu at safleoedd penodol. Mae'r broses hon yn annog amcanion ac argymhellion clir.

Bwlchygroes, Star, Llwyndrain a Gorllewin Cilrhedyn yn y Darlun Mwy

Mae'r bobl leol yn llwyr ymwybodol o faterion byd-eang ac yn dangos pryder tros amrywiaeth eang, yn amrywio o bolisïau'r llywodraeth i gynhesu byd-eang.

Nodwyd yr ymgyrch i wneud arian ac i ennill mwy a mwy o eiddo fel bygythiad, ynghyd â'r arfer didostur o ddefnyddio adnoddau fel dŵr a thanwydd ffosil – 'mae angen i ni ofalu am y pethau sy'n gofalu amdanom ni.' Roedd y materion sy'n ymwneud â bywyd gwledig yn cynnwys effaith niweidiol cau ysgolion a gwasanaethau lleol a'r angen am well cludiant cyhoeddus cyn y gellid ystyried gostwng y defnydd o'r car.

Teimlwyd y gost a'r gwastraff sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd yn arw. Pwysleisiwyd yr angen i fod yn hunan cynhaliol, yn nhermau defnyddio'r hyn sydd ar gael yn lleol, yn lle dibynnu ar gynnyrch wedi eu mewnforio a thueddiadau'r archfarchnad. 'Dylid gwerthu cynnyrch lleol yn lleol - neu eu gwerthu i'r farchnad agosaf.' Nodwyd hefyd yr obsesiwn modern gyda ffrwythau a llysiau 'perffaith' fel problem - 'dylai pobl werthfawrogi blas yn

lle'r ffordd y mae rhywbeth yn edrych.' Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch ffermio organig a'r angen i gael cydbwysedd rhwng bwyd wedi ei gynhyrchu'n dda a chnydau ac arferion ffermio realistig.

Codwyd yr angen i gael gwell cyfleusterau ailgylchu a'r gorddefnydd o safleoedd tirlenwi. Teimlwyd y dylai archfarchnadoedd fod yn fwy cyfrifol tros wastraff a gor-becynnu.

Roedd pwysigrwydd dimensiynau gwahanol gynaladwyedd yn thema ailadroddus. Mae'r rhain yn cynnwys 'peidio ag amddifadu ein plant; sicrhau cyfran deg i bawb a gallu'r ddaear i'n cefnogi ni.'

Y Weledigaeth ar gyfer yr 21ain Ganrif

Yn ystod y Gweithdai Gweledigaeth Gymunedol, gofynnwyd i'r rheiny a oedd yn cymryd rhan roi eu gweledigaeth o'u cymuned ddelfrydol ymhen deng mlynedd. Pwysleisiwyd yr angen i warchod yr amgylchedd gwledig graddfa fach sy'n bodoli - i 'dderbyn cynnydd' ond 'cadw'r ethos'. Roedd yna ddyhead hefyd i weithio gyda chymuned gyfagos Tegryn.

Roedd pobl yn awyddus i gadw a gwella cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol ac i'w datblygu ymhellach. Fe allai hyn gynnwys gardd gymunedol a chaffi, datblygu man cyfarfod i blant a bowls ar gyfer y rheiny sydd dros 60

Roedd cyfuno cryfderau'r amgylchedd naturiol a chyfleusterau lleol yn syniad arall - awgrymwyd datblygu gwyliau marchogaeth, gan ddefnyddio'r llwybrau ceffylau lleol a'r neuadd i gynnig llety dros nos. Roedden nhw am adeiladu ar gryfderau cyfredol yn lleol, gan gynnwys y gallu i drefnu digwyddiadau ac i ddefnyddio cyfleusterau eraill fel festri Capel Star.

Teimlwyd bod potensial technoleg newydd, gan gynnwys Band Eang, yn bwysig mewn ardaloedd gwledig ble mae cyfathrebu da yn hanfodol. Crybwyllwyd cylchlythyr ac roedd y potensial ar gyfer cydweithredu lleol, fel rhannu lifftiau, hefyd yn nod ar gyfer y dyfodol.

Roedd yna ddyhead i archwilio'r potensial ar gyfer ffynonellau ynni amgen, gan gynnwys bio danwydd a phaneli haul. Soniwyd hefyd am gynllun casglu dŵr.

Cyfleusterau Cymunedol

Sylwadau:

Mae Neuadd Gymunedol Bwlchygroes yn adnodd pwysig ac mae'r bobl leol yn llwyr haeddu bod yn falch ohoni a'r cyfan sydd ganddi i'w gynnig. Dyma'r prif leoliad ar gyfer digwyddiadau lleol, sy'n cael cefnogaeth dda, Mae rhai cyfarfodydd a gweithgareddau'n cymryd lle yn Festri Chapel Star ac mae yna ddiddordeb mewn gwneud mwy o'r lleoliad hwn a'r Eglwys ar gyfer digwyddiadau cymunedol.

Y Neuadd yw'r lleoliad ar gyfer cyfarfodydd amrywiol, gan gynnwys Sefydliad y Merched, y Grŵp Llyfr Hanesyddol, Pwyllgor ac is-grŵp Neuadd Gymunedol Bwlchygroes a Phwyllgor y Sioe. Defnyddir y neuadd hefyd gan y Brownies a'r Geidiaid sy'n trefnu

gweithgareddau ar y penwythnos a digwyddiadau cysgu dros nos. Cynhelir partïon pen-blwydd a dathliadau lleol yno hefyd.

Mae'r digwyddiadau cyfredol yn cynnwys dawnsio llinell a gwersi jeif, y Swper Blynyddol i bensiynwyr a nifer o ddigwyddiadau i godi arian ar gyfer y Neuadd. Mae'r rhain yn amrywio o nosweithiau jazz rheolaidd, wedi eu noddi gan y Cyngor Celfyddydau a Chyngor Sir Penfro, i Bres Bafaraidd a Thwmpathau. Mae'r rhaglen reolaidd hefyd yn cynnwys grwpiau drama ac amrywiaeth o ddigwyddiadau i ddathlu achlysuron arbennig drwy gydol y flwyddyn. Pobl leol sy'n gwneud yr arlwyo er mwyn cadw'r costau i lawr a chodi'r swm pennaf posib o arian ar gyfer y Neuadd. Mae Pwyllgor y Neuadd yn awyddus i ddatblygu gweithgareddau pellach, tra bod yna gefnogaeth i sicrhau bod syniadau newydd yn gweithio.

Saif y Neuadd wrth ymyl yr hen Ysgol, a phrydleswyd y safle cyfan gan y gymuned wedi cau'r ysgol yn 2000. Mae'r gymuned yn y broses o brynu'r safle cyfan sy'n cynnwys y Neuadd a'r hen Ysgol. Talwyd blaendal, a gyda chwblhad taliadau blynyddol dros y pedair blynedd nesaf, fe fydd y pwrcas yn derfynol. Ar hyn o bryd, defnyddir yr Ysgol gan y Cylch Meithrin - y grŵp chwarae cyfrwng Cymraeg, sy'n ei defnyddio bedair bore'r wythnos. Wedi sicrhau'r safle hwn, atgyfnerthwyd hyder y gymuned yn eu gallu i gyflawni pethau ar lefel leol.

Mae gan y gymuned sgiliau i lunio ceisiadau am nawdd ac mae yna hyder cyffredinol yn yr amrywiaeth eang o sgiliau sy'n bodoli'n lleol ac sy'n cyfrannu at y gallu i redeg y safle'n llwyddiannus. Mae pwyllgor y Neuadd yn cynnwys gwirfoddolwyr ymroddgar sy'n rhoi oriau o waith i safle'r hen ysgol bob wythnos. Yn ychwanegol at gynnal a chadw a gweinyddu'r adeilad a'r tir, mae hyn yn cynnwys archebu adloniant a siopa am fwyd i ddarparu'r arlwyo.

Mae'r ymdrechion i godi arian yn parhau er mwyn prynu'r safle. Mae'r gwelliannau a gynigir ar gyfer yr Ysgol a'r Neuadd yn gynnwys ail-wifrio, gwresogi, cyfleusterau newydd cegin a thoiledau gyda diddordeb brwd mewn defnyddio ynni yn fwy effeithlon. Hwn yw'r cam cyntaf o welliannau, a sicrheir nawdd grant i wneud hyn. Cynllunnir gwaith ychwanegol i'r Neuadd sydd ag angen am gelfi newydd a llwyfan. Fe fyddai cyfleusterau chwaraeon a hamdden ac ardal chwarae i blant ifainc hefyd yn ddymunol.

Trafodwyd manteision potensial adeiladu Neuadd newydd yn lle adnewyddu'r hen Neuadd, ac mae angen archwilio'r mater ymhellach. Mae yna ddiddordeb mewn technegau adeiladu cynaliadwy ac effeithlonrwydd ynni. Soniwyd am adeilad newydd y Cynulliad Cenedlaethol fel enghraifft o arfer da. Y syniad yw sicrhau bod y safle cyfan mor ddichonadwy â phosib fel y bydd yn darparu cyfleusterau i bob oed ac yn dod â'r refeniw pennaf posib i gwmpasu costau cynnal a chadw parhaus a chostau eraill fel yswiriant.

Comisiynwyd astudiaeth o safle'r hen Ysgol gan Fenter Preseli gyda Choleg Sir Benfro yn 2000 ac mae angen ei diweddaru neu ei diwygio.

Cynigion:

- Edrych yn ffres ar yr Astudiaeth o Safle'r Ysgol a wnaethpwyd gan Fenter Preseli a Choleg Sir Benfro. Mae'n bwysig asesu dichonolrwydd y Neuadd bresennol a'r potensial ar gyfer cyfleusterau eraill, gan gynnwys ardal chwaraeon amlbwrpas.

- Ymchwilio i opsiynau adeiladu cynaliadwy – effeithlonrwydd ynni, ailgylchu gwastraff ayb – edrych ar ysgol Crymych fel enghraifft.
- Archwilio opsiynau ar gyfer cysylltiadau gyda phrosiectau eraill a allai ddenu nawdd e.e. cynnyrch bwyd lleol a gweithdai crefft.
- Archwilio opsiynau ar gyfer lleoliadau eraill gan gynnwys Capel Star a'r Eglwys.

Gweithgareddau, Digwyddiadau a Chyfathrebu Cymunedol

Sylwadau:

Mae Bwlchygroes yn gymuned weithgar iawn sy'n 'tynnu at ei gilydd' i drefnu gweithgareddau amrywiol ac amrediad sylweddol o ddigwyddiadau codi arian llwyddiannus. Mae yna ddiddordeb mewn datblygu'r rhaglen hon o ddigwyddiadau 'cymdeithasu' ymhellach.

Hoffai rhai weld y pentref yn cael tafarn i roi cyfle i gymdeithasu'n anffurfiol ac maen nhw'n teimlo y dylai fod mwy o gyfleusterau a chyfleoedd hamdden i bobl ifainc, gan gynnwys Clwb Ieuenctid, yn ogystal â gweithgareddau ar gyfer trigolion hŷn.

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a chwaraeon yn cynnwys noson 'Cwrw Go Iawn' wythnosol, bowlio, pêl-droed, rygbi a hyfforddiant ffitrwydd. Nodwyd hefyd y cyfle i'r henoed ddod at ei gilydd i gael sgwrs, chwarae gemau a threfnu teithiau. Fe fuasai mwy o weithgareddau ieuenctid yn ddymunol, gyda phwyllgor o bobl ifainc wedi eu hethol i adnabod anghenion a threfnu digwyddiadau ar gyfer eu grŵp oedran. Nodwyd bod cyfleusterau a gweithgareddau i bobl ag anghenion arbennig hefyd yn elfen bwysig. Mae yna bwyslais ar gadw synnwyr cyffredin o fwynhad - mae cael 'hwyl' yn elfen bwysig o lwyddiant amserlen flynyddol o ddigwyddiadau Bwlchygroes.

Nod arall yw datblygu gweithgareddau addysgiadol yn y Neuadd Gymunedol gan gynnwys darparu dosbarthiadau cyfrifiadur a defnyddio mwy o'r Neuadd yn ystod y dydd ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg a chrefftau. Awgrymwyd 'cyfle i drosglwyddo gwybodaeth a hanes lleol' yn ystod y gweithdai cymunedol, a hefyd 'mwy o ddosbarthiadau nos, cyrsiau cymorth cyntaf a dosbarthiadau glendid bwyd'.

Mae yna ddiddordeb mewn trefnu Gŵyl Gerdd ar gyfer Bwlchygroes, gan ddefnyddio'r Neuadd mewn cydweithrediad ag Eglwys Sant Clydau a llefydd addoli eraill. Fe fyddai pwyslais ar gerddoriaeth glasurol a chorawl. Awgrymwyd nosweithiau o farddoniaeth Gymraeg hefyd, gyda phwyslais ar ddysgu mwy am ddiwylliant Cymru, a hefyd awgrymwyd darparu dosbarthiadau Cymraeg i helpu trigolion newydd i rannu'r iaith gyda phobl leol ac ymarfer eu sgiliau.

Y prif ffynonellau cyfathrebu a gwybodaeth yw'r papurau lleol a'r radio, lledu'r gair, hysbysfyrddau, y siop/swyddfa bost, cyfarfodydd ac 'osmosis!' Mae'r gymuned yn awyddus i ddatblygu cylchlythyr, a noddir gan fusnesau lleol, yn debyg i'r un a gyhoeddir yn Llanteg. Mae Tegryn gerllaw yn cynhyrchu cylchlythyr da iawn ac awgrymwyd y gellid ei ymestyn fel cyhoeddiad ar gyfer y plwyf.

Gwelir gwell cyfathrebu o fewn y plwyf yn ffordd bellach o ddod â chymunedau cyfagos at ei gilydd a ffurfio 'llais grŵp' i sicrhau cryfder yn lleol.

Mae yna ddiddordeb mewn gwefan cymunedol ac mewn gwella'r gallu i dderbyn radio a theledu a safon y derbyniad.

Cynigion:

- Cynnal Arolwg o Weithgareddau Cymunedol i ddarganfod beth mae pobl am ei weld yn eu cymunedau a phwy fyddai'n barod i helpu gwireddu'r syniadau.
- Gweithio gyda phobl ifainc i drefnu cyfarfod i drafod eu hanghenion.
- Gweithio gyda phobl hŷn i drefnu cyfarfod i drafod eu hanghenion.
- Trefnu cyfarfod i drafod y potensial ar gyfer trefnu Gŵyl Gerdd, gan ddefnyddio Gŵyl Llandudoch fel enghraifft.
- Asesu'r diddordeb ymhlith busnesau i noddi Cylchlythyr Cymunedol i hybu digwyddiadau yn y Neuadd a lleoliadau eraill a hysbysebu gwasanaethau a sgiliau.
- Cael y mwyaf allan o opsiynau cyfathrebu trwy gadw ar flaen y datblygiadau Band Eang a thechnoleg arall.
- Ymchwilio i ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo digwyddiadau.
- Creu fforwm clwstwr allan o fforymau cymunedol unigol yr ardal leol.

Menter a Busnes

Sylwadau:

Mae yna ddiwylliant cryf o hunan-help yn yr ardal, ac ewyllys i gael y mwyaf allan o gyfleoedd. Mae ffermwyr wastad wedi helpu ei gilydd ac mae busnesau lleol yn cydweithio. Mae pobl yn eu gweld eu hunain fel pobl 'gwydn' sydd 'ddim yn ofn gwaith caled' ac mae yna natur benderfynol gyffredinol i wneud y mwyaf o adnoddau a gwasanaethau lleol. Gwelir y swyddfa bost a'r siop fel elfennau pwysig ac fe fyddai mwy o wasanaethau lleol yn ddymunol, gan gynnwys bancio, gofal iechyd a darpariaeth ar gyfer yr henoed.

Mae'r prif gyflogwyr yn cynnwys ffermwyr; y diwydiant gwyliau; coedwigaeth; cwmni cludiant Mansel Davies ; Bwlchygroes Farm Feeds, Oliver Thomas, Alan James, Calon yn Tyfu a Richard Butler. Ychydig iawn o gymunedau bach sydd â chymaint o gyfleoedd cyflogaeth a gwerthfawrogir 'argaeledd gwaith da' er bod yna bryder ynghylch cyfleoedd i bobl ifainc yn y dyfodol. Mae cefnogaeth ar gyfer busnesau bach yn uchel ymhlith pobl leol ond maen nhw'n teimlo bod yna ormod o fiwrocratiaeth a dim digon o gymorth neu gymhelliant. Mae rhai pobl yn teimlo eu bod nhw nawr angen cymwysterau i wneud gwaith y maen nhw wedi bod yn ei wneud trwy gydol eu hoes.

Mae yn ddiddordeb mewn hunan gynhaliaeth a chredir yn gryf mai "mewn undeb mae nerth". Mae pobl leol yn fentrus ac yn ymfalchïo yn y sgiliau a'r crefftau gwahanol yn y gymuned. Maen nhw'n eu gweld eu hunain fel pobl 'gwydn' sy'n 'hoffi her'. Cafwyd trafodaeth ynghylch y posibilrwydd o sefydlu system gyfnewid sgiliau neu 'gyfnewid swyddi' - tebyg i'r system 'ffeirio' traddodiadol sydd wastad wedi bodoli mewn ardaloedd gwledig. Awgrymwyd hefyd, y posibilrwydd o brynu cynnyrch crynswth fel ffordd o gydweithio a thorri costau.

Roedd yr 'Archwiliad Sgiliau' a gynhaliwyd yn ystod y gweithdy cymunedol yn dangos yr amrywiaeth eang o sgiliau, doniau a phrofiadau ymhlith rhan gymharol fach o'r gymuned. Mae gan bobl sydd wedi hanner-ymddeol lawer o sgiliau ac maen nhw'n gallu bod yn fwy hyblyg. Fe allai'r wybodaeth hon ffurfio sylfaen cyfeirlyfr sgiliau a busnesau lleol ac fe fyddai'n annog grwpiau oedran gwahanol i gydweithio.

Fe allai'r system ffeirio ymestyn i gynnwys cynnyrch lleol, fel gormodedd o ffrwythau a llysiau o erddi – rhywbeth sydd eisoes yn digwydd yn anffurfiol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol heddiw ar adeg pan mae pobl yn poeni am effaith bwyd o ansawdd isel sy'n teithio llawer o filltiroedd mewn pecynnau eithafol ar iechyd, a'r gwastraff cysylltiedig.

Mae yna enghraifft dda yng Nghrymych ble mae dros 80% o bobl yn siopa'n lleol. Ceir enghraifft arall ger Llandysul ble adeiladwyd pedair uned bwyd newydd ac mae yna restr aros o fusnesau prosesu bwyd sydd am eu defnyddio.

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer Bwlchygroes yn cynnwys trefnu cyfarfod i drafod y syniad o gyfnewid sgiliau a chynnyrch, siarad â grwpiau eraill ble mae hyn yn llwyddiannus, fel System Fasnachu Cyfnewid Lleol (LETS) Ceredigion ac edrych i mewn i'r potensial ar gyfer ailgylchu ac atgyweirio cynnyrch 'gwastraff' fel dodrefn, a fyddai hefyd yn gallu darparu hyfforddiant a chyflogaeth. Awgrymwyd 'siop fferm' rheolaidd yn y neuadd gymunedol ac mae yna ddiddordeb mewn trosglwyddo synnwyr bwyd da at y genhedlaeth iau - awgrymwyd dosbarthiadau coginio a bwyta'n iach yn y Neuadd. Teimlwyd bod 'Ffermio ar gyfer y genhedlaeth nesaf' hefyd yn bwysig.

Gellid cysylltu thema 'byw'n iach' trwy gyfleoedd a nodwyd i wneud gwell defnydd o lwybrau a thraciau lleol ar gyfer cerdded, marchogaeth a seiclo - fel ffordd o hybu ymarfer corff a gostwng y defnydd o'r heolydd. Fe fyddai ymwelwyr yn cael eu hannog i dreulio amser ac arian yn lleol - ar lety, gweithgareddau, bwyd a chynnyrch.

Teimlir bod y dyhead i wneud y mwyaf o gyfleoedd lleol, hybu mentrau lleol a chreu cyflogaeth - yn enwedig i atal pobl ifainc rhag symud allan o'r ardal - yn ffordd fwy cynaliadwy o fyw.

Cynigion:

- Trefnu cyfarfod i drafod y syniad o Gyfnewid Sgiliau a Chynnyrch ac i asesu'r goblygiadau o ran amser ac ymrwymiad.
- Gweithio gyda thîm menter ardal PLANED i lunio Cyfeirlyfr o Sgiliau a Busnesau.
- Siarad â grwpiau eraill ble mae System Fasnachu Cyfnewid Lleol eisoes yn rhedeg yn llwyddiannus.
- Edrych ar gyfleoedd i ailgylchu dodrefn a'r potensial i drosglwyddo sgiliau.
- Nodi ffordd o werthu rhagor o gynnyrch lleol.
- Ymgynghori â swyddog bwyd CSP ynghylch arfer gorau a chael cyngor.
- Ymchwilio i'r syniad o brynu cynnyrch sylfaenol mewn swmp, e.e. olew tanwydd
- Archwilio cysylltiadau gyda phrosiectau eraill – byw'n iach ayb
- Gweithio gyda busnesau lleol ac asiantaethau twristiaeth i hybu twristiaeth, e.e. g&b/seiclo a cherdded
- Annog y gymuned gyfan i gymryd rhan trwy erthyglau yn y wasg a chylchlythyr.
- Cynhyrchu Pecyn Gwybodaeth ar gyfer pobl sydd newydd symud i'r ardal.

Yr Amgylchedd ac Ynni

Sylwadau:

Mae trigolion o bob oed yn gwerthfawrogi'r amgylchedd amrywiol lleol sy'n cynnwys y Frenni Fawr a'r Frenni Fach, nentydd, coedwigoedd, golygfeydd pellgyrhaeddol ac amrywiaeth o fywyd gwyllt.

Mae yna gysylltiad agos iawn rhwng yr amgylchedd a'r ffordd o fyw lleol - mae ffermio a diwydiannau eraill, fel chwarelu, wedi dod o dan ddylanwad y tir ac, yn eu tro, wedi helpu llunio'r dirwedd. Mae'r bobl leol yn teimlo'n gyfrifol am warchod y dreftadaeth naturiol ond yn cydnabod ei fod yn amgylchedd weithio a hefyd yno i'w fwynhau.

Mae camau lleol tuag at ofalu am yr amgylchedd yn cynnwys ailgylchu a chompostio, prynu cynnyrch a gynhyrchir yn lleol, rheoli tir drwy ffermio a gostwng effaith traffig trwy ddefnyddio Bws y Ddraig Werdd.

Mae yna bryder ynghylch y diffyg cynnal a chadw ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus oherwydd gwelir y llwybrau a'r traciau fel rhan annatod o dreftadaeth y dirwedd - roedd llawer ohonynt yn hen lwybrau porthmyn. Heddiw, cânt eu defnyddio i gerdded, seiclo a marchogaeth a theimlir y gellid gwneud mwy ohonynt fel ffordd o osgoi'r heolydd sy'n dod yn fwy a mwy prysur, ac am resymau iechyd a ffitrwydd (*gweler yr adran Menter a Busnes*). Cydnabyddir y cysylltiad rhwng amgylchedd wedi'i rheoli a manteision economaidd hefyd. Mae cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy hefyd yn bosib - trwy hybu teithiau cylch a llwybrau treftadaeth.

Ceir boddhad cyffredinol gydag ymddangosiad y pentref. Awgrymwyd datblygu gardd gymunedol ar safle'r hen Ysgol, fel ffordd o ddod â phobl o bob oed at ei gilydd i weithio ar brosiect cyffredinol, ac fel ffordd arall o gyfnewid sgiliau.

Mae pobl leol eisoes yn ailgylchu eu gwastraff ond maen nhw eisiau mwy o gyfleusterau er mwyn gwneud hyn yn fwy hwylus ac fe fuasent yn hoffi cael cynllun ailgylchu plastig. Fe fuasai man ailgylchu lleol a chasgliad sbwriel 'cwdyn oren' hefyd yn helpu. Fe fuasai mwy o bobl yn ailgylchu petai'n gyfleus gwneud hynny.

Mae yna ddiddordeb mewn ffynonellau ynni amgen a'r syniad o gynhyrchu trydan ar lefel leol. Ni ddylai unrhyw ddull gyfaddawdu ar yr amgylchedd lleol. Ceir enghraifft dda yn Ysgol Gynradd Crymych ble mae system i gasglu dŵr glaw ar waith a boeler biomas carbon niwtral yn cynhesu'r adeilad. Cânt eu defnyddio hefyd fel cymorth dysgu ar gyfer gwersi ar yr amgylchedd. Soniwyd hefyd am fenter effeithlonrwydd ynni'r Porth Mawr. Mae yna gaffi a man gwybodaeth i dwristiaid mewn adeilad sy'n effeithlon o ran ynni ac fe all ymwelwyr weld y broses gyfan ar waith - tyrbin gwynt bach, ynni solar ayb. Dylai fod gwybodaeth ar gael yn hwylus i bawb a dylid annog y defnydd o ynni'r gwynt a phaneli solar trwy grantiau ynni amgen.

Cynigion:

- Gweithio gyda pherchnogion tir lleol a swyddogion hawliau tramwy'r Cyngor Sir i arolygu llwybrau cyhoeddus a sicrhau eu bod ar agor ac yn cynnwys arwyddion ffordd a marciau ffordd.

- Annog arwyddion ynghylch ymddygiad cyfrifol yn y cefn gwlad.
- Annog cerdded, seiclo a marchogaeth ar lwybrau a ffyrdd tawel.
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael am y llwybrau yn y gymuned.
- Edrych ar y potensial ar gyfer datblygu gardd gymunedol ar safle'r Ysgol.
- Gweithio gyda'r Cyngor Cymuned i lobïo'r Cyngor Sir am help gydag anghenion ailgylchu.
- Ymchwilio i wybodaeth ar ynni amgen cynaliadwy a manylion grantiau.
- Gofyn i'r Ganolfan Eco am fanylion prosiectau ynni cymunedol.

Treftadaeth a Diwylliant

Sylwadau:

Mae hanes a threftadaeth adeiledig y Gymuned yn bwysig i bobl leol – maen nhw'n falch ohonynt ac yn llunio ail lyfr ar hanes Clydau ar hyn o bryd, wedi cyhoeddi cofnod ffotograffig llwyddiannus o'r ardal.

Ceir amrywiaeth sylweddol o nodweddion hanesyddol yn yr ardal leol. Mae'r rhain yn cynnwys yr Ysgol; Eglwys a Chapeli; ystâd Ffynnone; llwybrau porthmyn; Henfeddau, lleoliad y ffeiriau hurio; cerrig ogam yn Eglwys Clydau; Melin Star; y domen gladdu ar y Frenni Fach; Castell Crychydd a'r 'pentref coll'. Mae yna ddiddordeb mewn ymchwilio i'r nodweddion hyn a'r hanes tu ôl i rai o'r hen dai maenor fel plasty Lancych a Maenor Coed Llwyd.

Mae rhai aelodau hŷn o'r gymuned wedi cadw cofnodion manwl a llyfrau sgrap o newyddion a digwyddiadau lleol dros y ganrif ddiwethaf, ac maen nhw'n ddiddorol iawn ac yn ddefnyddiol iawn ar gyfer gwaith ymchwil. Mae yna ddiddordeb mewn gwneud ymchwil pellach yn Swyddfa Cofnodion Sir Benfro yn Amgueddfa Maenor Sgolton.

Mae'r gymuned yn awyddus i lwyfannu arddangosfa o hanes lleol ac mae yna ddiddordeb yn y syniad o ddehongli rhai o'r nodweddion lleol. Fe allai hyn arwain at ffurfio llwybr treftadaeth a defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus, a fyddai o ddiddordeb i bobl leol ac ymwelwyr. Mae yna lawer o enghreifftiau o brosiectau o'r fath a arweinir gan y gymuned.

Soniwyd am bobl hefyd - yn enwedig 'cymeriadau' sydd wedi byw yn yr ardal trwy gydol eu bywydau, ac mae traddodiadau a chylchoedd y flwyddyn wledig hefyd yn bwysig iawn. Mae gan bob un stori i'w adrodd ac mae yna botensial ar gyfer gwaith hanes llafar. Mae'r gymuned yn awyddus i gynnwys plant, ac mae hyn o werth fel ffordd o drosglwyddo hanes ac yn enghraifft o ryngweithio cymdeithasol.

Gwerthfawrogir diwylliant yr ardal hefyd, ac mae pobl leol yn awyddus i warchod a defnyddio'r iaith Gymraeg. Maen nhw'n awyddus i gadw'r iaith, yn enwedig y dafodiaith leol, yn fyw trwy ddosbarthiadau a nosweithiau anffurfiol yn y neuadd. Mae yna ddiddordeb mewn cynnal digwyddiadau'n seiliedig ar farddoniaeth Gymraeg a chwedlau fel y Mabinogi. Mae cysylltiad W R Evans a Bois y Frenni hefyd yn bwysig a gellid archwilio hyn ymhellach. Mae cerddoriaeth a chanu corawl hefyd yn rhan bwysig o'r dreftadaeth ddiwylliannol ac awgrymwyd Gŵyl Gerdd. (gweler *adran Gweithgareddau, Digwyddiadau a Chyfathrebu Cymunedol).*

Cynigion:

- Parhau i gefnogi prosiect y Llyfr Hanes a diweddaru'r gymuned ehangach ynghylch unrhyw gynnydd, a'u cynnwys yn y cynnydd hwn.
- Trefnu Arddangosfa o'r holl hen ffotograffau a chofbethau.
- Annog pobl leol i gofnodi eu hatgofion.
- Archwilio'r syniad o Lwybr Treftadaeth gan ddefnyddio llwybrau cyhoeddus.
- Trafod syniadau ar gyfer byrddau arddangos i adlewyrchu rhai o'r nodweddion lleol.
- Archwilio'r syniad o Nosweithiau Barddoniaeth a Diwylliant Cymreig.
- Cefnogi'r cynnig ar gyfer Gŵyl Gerdd.

Priffyrdd a Thrafnidiaeth

Sylwadau:

Mynegwyd pryder ynghylch y swmp o draffig, a'u cyflymder, ar sawl achlysur yn ystod y gweithdai i greu gweledigaeth gymunedol. Soniwyd hefyd am sŵn a llygreddau eraill gan draffig ac awyrennau.

Er ein bod yn falch o fws y Ddraig Werdd, mae angen mwy o gludiant cyhoeddus. Mae pobl leol yn teimlo dan fygythiad oherwydd y traffig sy'n cynyddu o ran maint a chyflymder, ond yn teimlo'n rhwystredig am eu bod nhw hefyd angen ceir i fynd i'r gwaith ac i gyrraedd siopau a gwasanaethau.

Mae yna fater diogelwch a hefyd effaith ar yr amgylchedd, ond mae tanwydd yn ddrud hefyd. Mae gan deuluoedd fwy nag un car am eu bod nhw'n gweithio mewn lleoliadau gwahanol ac mae ganddynt amserlenni gwahanol. Mae yna fws ysgol ac mae'r cynllun Ceir Cefn Gwlad yn darparu ar gyfer teithiau i'r ysbyty ond mae yna ddibyniaeth drom ar gludiant preifat.

Awgrymwyd rhai atebion i siwrneiau lleol, gan gynnwys rhannu lifft a'r syniad o gael un siwrnai car i Grymych bob dydd ar gyfer siopa hanfodol, casglu presgripsiynau ayb.

Cynigion:

- Trefnu Arolwg Traffig mewn cydweithrediad â'r Cyngor Sir a'r Cyngor Cymuned.
- Ymchwilio i ddulliau tawelu trafnidiaeth yn yr ardaloedd sy'n achosi pryder yn y Gymuned.
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o wella diogelwch y ffyrdd yn y Gymuned gan gynnwys arwyddion ffordd gwell.
- Gofyn am gyfarfod gyda Chydlynydd Cludiant Cyngor Sir Benfro er mwyn adolygu'r potensial i ymestyn y gwasanaeth bws.
- Ymchwilio i ddulliau o addysgu ymhellach gyrwyr newydd mewn gyrru'n amddiffynnol, e.e. posteri a thaflenni

Tai a Gwasanaethau

Sylwadau:

Mae pobl leol yn poeni am y math o ddatblygu tai sy'n cael ei sancsiynu yn yr ardal. Maen nhw'n credu nad ydyw'n cwrdd ag anghenion y rheiny sydd angen tai fforddiadwy i aros a gweithio yn yr ardal, magu eu teuluoedd a chynnal y ffordd leol o fyw.

Mae yna bryder difrifol ynghylch yr angen am dai fforddiadwy ar gyfer pobl ifainc. Mae angen hyn (a chyflogaeth) os ydyn nhw'n mynd i gael unrhyw siawns o weithio a byw yn yr ardal ble y cawsant eu geni a'u magu.

Gwêl rhai ddyfodol tywyll, gyda'r ardal yn cynnwys poblogaeth sy'n heneiddio am na fydd teuluoedd ifainc yn gallu fforddio byw'n lleol. Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer y system iechyd a lles a fydd â mwy o alw o blith y boblogaeth hŷn. Mae pobl leol am i Lywodraeth Cynulliad Cymru gydnabod y sefyllfa hon ac estyn cymorth.

Nid oes barn dda iawn o'r awdurdod cynllunio yn lleol, oherwydd ymddengys na chynigir mawr o help i bobl ifainc. Mae yna dir ar gael i adeiladu ac mae un cynnig yn gynnig am gartrefi hunan-adeiladu sy'n ystyried yr amgylchedd, gyda gerddi mawr ar gyfer cynnyrch lleol. Ni fyddai'r dull hwn yn cyfaddawdu ar yr amgylchedd, a nawr mae yna nifer o enghreifftiau, er enghraifft adeilad eco Y Gragen a phrosiect y Porth Mawr, y gellir mynd i'w gweld. Gellid gwneud ymchwil pellach ar y testun hwn. Mae Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol hefyd yn werth eu hymchwilio - mae To Gwyrdd yn Nhrefdraeth yn enghraifft dda.

Fe allai hyn fod yn rhan o'r ymgyrch lleol i fyw mewn ffordd fwy cynaliadwy, gan gefnogi crefftwyr lleol a phrynu deunyddiau'n lleol. Fe fyddai annog pobl i dyfu eu cynnyrch eu hunain, i siopa'n lleol ac i wneud ailgylchu'n fwy hwylus, hefyd yn helpu.

Soniwyd am fygythiadau oherwydd canoli gwasanaethau a chynnydd mewn biwrocratiaeth, ar sawl achlysur. Mae gwasanaethau sy'n dirywio'n cynnwys diffyg meddygfa leol ac anhawster cyrraedd apwyntiadau ysbyty, yn enwedig i bobl hŷn sy'n llai symudol. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol mewn perthynas â'r boblogaeth sy'n heneiddio. Soniwyd hefyd am ddiffyg heddwas yn lleol.

Mae'r pryder mwyaf yn ymwneud â'r ffordd y mae siopau a banciau lleol yn cael eu draenio'n barhaus, gan newid y traddodiad cyfan o fywyd gwledig, ble mae trefi marchnad bach wedi chwarae rhan strategol. Mae Crymych yn dal i wasanaethu'r diben hwn ond cydnabyddir yr angen i gefnogi busnesau lleol yn hytrach na siopa mewn archfarchnadoedd mawr.

Cynigion:

- Gweithio gyda'r Cyngor Cymuned i edrych ar y cydgynllun datblygu unedol i asesu'r potensial ar gyfer datblygu fforddiadwy ar raddfa fach.
- Ymchwilio i ffyrdd o gymryd rhan yn y gweithrediad ymgynghorol o gynllun yr ardal.
- Cwrdd â'r Galluogwr Tai Gwledig i gynnal arolwg o anghenion lleol i asesu'r galw.

- Trefnu ymweliad â phrosiectau adeiladu sy'n ystyried yr amgylchedd, fel y Porth Mawr.
- Cael cyngor a gwybodaeth gan Ganolfan Eco Gorllewin Cymru yn Nhrefdraeth.
- Edrych ar opsiynau Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol.
- Ymgynghori â'r Cyngor Sir ynghylch y posibilrwydd o wasanaethau cymorth sy'n ymweld â thrigolion hŷn ayb.
- Cefnogi gwasanaethau a busnesau lleol sydd eisoes yn bodoli.

Grwpiau Gweithgaredd / Gweithredu

Er mwyn symud y Cynllun Gweithredu yn ei flaen yn effeithiol, cynigir ffurfio Gweithgorau diddordeb arbennig o fewn Fforwm Cymunedol lleol. Fe fyddai'r grwpiau, mewn ymgynghoriad â'r darparwyr perthnasol, er enghraifft Awdurdod y Priffyrdd, yn canolbwyntio ar baratoi rhaglenni gweithredu mwy manwl sy'n rhoi blaenoriaeth a ffocws i'r cynigion hynny y gellir eu gweithredu'r gynnar.

Gellir canoli'r Grwpiau ar:

- Cymunedau - cyfleusterau, gweithgareddau a chyfathrebu.
- Menter a Busnes.
- Yr Amgylchedd ac Ynni
- Treftadaeth a Diwylliant
- Priffyrdd a Chludiant
- Tai a Gwasanaethau.

Mae'n bwysig fod y Grwpiau'n:

- Gweithio o fewn y Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno ac yn adrodd i'r prif Fforwm - fe allai hyn fod yn gorff sydd eisoes yn bodoli neu'n grŵp a ffurfiwyd yn arbennig.
- Mynd law yn llaw gyda gwaith y Cyngor Cymuned.
- Gweithio gyda grwpiau a mudiadau sydd eisoes yn bodoli.
- Cyfarfod yn rheolaidd.
- Diweddaru'r gymuned ehangach ynghylch cynnydd.